

Atodiad 1

Ein cynigion

Mae cydbwyso'r angen i leihau anfantais, sicrhau bod cymwysterau'n rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth, yn ogystal â chynnal ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster yn her, oherwydd nid yw'r gofynion hyn, bob amser, yn gymharus â'i gilydd.

Pan fydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, dylai'r rhain fod ar sail tystiolaeth o angen, ac ni ddylent fygwth amcanion asesu'r cymhwyster.

Mae'r ddogfen hon yn dynodi'r meysydd hynny lle'r ydym yn awyddus i lunio manylebau (rheolau); mae hefyd yn dynodi'r manylebau drafft yr ydym yn ceisio eich barn yn eu cylch. Nodir y rhain dan y penawdau canlynol:

- Esemptiadau
- Marciau pasio a ffiniau gradd
- Darllenwyr
- Ysgrifenyddion a thechnolegau adnabod llais
- Iaith Arwyddion Prydain
- Cynorthwywyr ymarferol
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Ym mhob maes, amlinellir y sefyllfa gyfredol, gyda'n cynigion ni yn dilyn. Yna, pennir y manylebau drafft, gydag enghreifftiau'n darlunio'r hyn a olygant mewn ymarfer.

Hoffem glywed eich barn ynglŷn â'n cynigion. Ceir ffurflen ymateb yn Atodiad 2. Gofynnwn i chi ddefnyddio hon i gyfleu eich barn wrthym ni.

Yr ydym wedi cydweithio'n agos ag Ofqual er mwyn sicrhau bod ein cynigion yn unol â chymwysterau sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr.

Pan fydd cymwysterau'n cael eu hadolygu yn y dyfodol, bydd manylebau a lunnir dan adran 96 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu hadolygu yn wyneb unrhyw newidiadau, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn briodol.

Esemptiadau

Y sefyllfa gyfredol

Mae esemptiad yn addasiad rhesymol a ddefnyddir pan fydd popeth arall wedi methu. Mae'n gytundeb a wneir gyda chorff dyfarnu, cyn unrhyw asesiad, bod modd i ymgeisydd anabl gael ei esgusodi rhag sefyll cydran (neu gydrannau) o gymhwyster. Pan fydd esemptiad yn cael ei ganiatáu, ystyrir perfformiad yr ymgeisydd yn yr union gydrannau a safwyd fel eu perfformiad yn y cymhwyster yn ei gyfanrwydd.

Defnyddir esemptiadau pan fydd popeth arall wedi methu, gan nad ydynt yn caniatáu i ymgeiswyr ddangos yn llawn yr hyn y maent yn gallu ei gyflawni. Fodd bynnag, mae esemptiadau wedi cael eu defnyddio ers sawl blwyddyn er mwyn i ymgeiswyr anabl allu sefyll cymwysterau, er nad yw rhannau ohonynt yn hygyrch iddynt, yn enwedig gyda chymwysterau porth megis TGAU Saesneg. Pan ganiateir esemptiad, dynodir hyn ar dystysgrif yr ymgeisydd. Mae hyn yn sicrhau bod y cymhwyster yn dal i roi darlun dibynadwy o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeisydd.

Dyfernir oddeutu 100 o esemptiadau bob blwyddyn ar draws pob cymhwyster cyffredinol a ddyfernir gan gyrff dyfarnu'r Cyd Gyngor Cymwysterau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cynigion

Mae'r manylebau a gynigiwn yn cydweddu'n agos ag arferion cyfredol. Yr ydym am gyfyngu esemptiadau'n llwyr i'r achosion hynny lle nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol. Yr ydym am gyfyngu ar faint o gymhwyster y gellir cael esemptiad ohono. Yr ydym hefyd am i esemptiadau gael eu cyfyngu i gydrannau cyfan yn unig (nid rhannau o gydrannau), pan nad yw ymgeisydd yn gallu cael mynediad at unrhyw ran o'r gydran honno.

Mae caniatáu esemptiadau yn lleihau anfantais a wyneba ymgeiswyr anabl. Mae pennu cyfyngiadau penodol ar y defnydd a wneir ohonynt yn cynnal ffydd y cyhoedd ac yn helpu i sicrhau bod y cymwysterau yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a phrofiad ymgeiswyr.

Byddwn yn adolygu meini prawf cymwysterau ar gyfer mynediad a chynhwysiant, yn unol ag adolygiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol. Trwy wneud cymwysterau yn fwy hygyrch, ein gobaith yw y bydd yr angen am esemptiadau yn lleihau dros amser.

Manylebau drafft

Esemptiadau pan fydd popeth arall wedi methu

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol, heblaw mewn achosion lle nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol.

Enghraifft 1

Nid yw ymgeisydd byddar yn gallu cael mynediad at gydran gwrandio arholiad Saesneg. Gellir dyfarnu esemptiad os nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall a fyddai'n caniatáu i'r ymgeisydd ddangos bod ganddo/i y sgiliau dan sylw.

Enghraifft 2

Mae proses e-asesu yn creu rhwystr i ymgeisydd dall. Ni ddylid bod angen esemptiad, gan y gellid darparu ffordd arall o asesu, megis papur Braille, sy'n hygyrch i'r ymgeisydd.

Faint o'r cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol a fyddai'n golygu mwy na 50% o'r marciau sydd ar gael (wedi'u pwysoli) ar gyfer cymhwyster.

Gyda lefel A, dylid cwblhau o leiaf un uned A2.

Gyda phrif ddysgu, mae 50% o'r cymhwyster gyfwerth â 50% o'r oriau dysgu dan arweiniad.

Enghraifft 1

Mae asesiad dan reolaeth yn cael ei bwysoli ar 60% o gymhwyster Dylunio a Thechnoleg TGAU. Ni ddylid caniatáu esemptiad i'r ymgeisydd o'r asesiad dan reolaeth gan fod hyn dros 50% o'r cymhwyster.

Enghraifft 2

Nid yw ymgeisydd yn gallu cael mynediad at gydran siarad sy'n 25% o gymhwyster, na chydran gwrandio sy'n 25% arall o'r un cymhwyster. Os nad yw'r ymgeisydd yn gallu cwblhau'r cydrannau hyn drwy unrhyw ffurf arall ar addasiad rhesymol, gellir caniatáu esemptiad o'r ddwy gydran gan eu bod, gyda'i gilydd, yn ffurfio 50% (ond dim mwy na 50%) o'r cymhwyster.

Esemptiad o gydran gyfan

**Ni ddylid defnyddio esemptiad o ran o gydran fel addasiad rhesymol.
Dim ond pan fydd ymgeisydd yn methu cael mynediad at unrhyw ran o'r
gydran honno y dylid caniatáu esemptiadau ar gyfer y gydran gyfan.**

Enghraifft 1

Nid yw ymgeisydd byddar yn gallu cwblhau unrhyw ran o gydran gwrando arholiad Saesneg. Nid oes yr un addasiad rhesymol arall yn briodol, felly gellir caniatáu esemptiad ar gyfer y gydran gyfan.

Enghraifft 2

Mae ymgeisydd dyslecsig yn cael anhawster cyrchu marciau am sillafu ac atalnodi, sy'n rhan fach o gydran ysgrifennu. Ni ddylid caniatáu esemptiad ar gyfer y gydran honno. Nid yw hyn yn golygu nad oes modd ystyried addasiadau rhesymol eraill.

Marciau pasio a ffiniau gradd

Y sefyllfa gyfredol

Mae ffiniau gradd a marciau pasio'r un fath i ymgeiswyr anabl ag yr ydynt i ymgeiswyr nad ydynt yn anabl.

Pan ganiateir esemptiadau, mae ymgeiswyr yn cael eu marcio allan o 100% ar gyfer y cydrannau a gwblhawyd ganddynt. Maent wedyn yn dal i wynebu'r un ffiniau gradd a marciau pasio.

Cynnig

Nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau cyfredol.

Bydd pennu nad yw hi'n ddyletswydd ar gyrff dyfarnu i wneud addasiadau rhesymol i ffiniau gradd a/neu farciau pasio yn helpu i gynnal ffydd y cyhoedd, a sicrhau bod cymwysterau'n rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a phrofiad yr ymgeisydd. Nid yw'r dull gweithredu hwn yn rhoi ymgeiswyr anabl dan unrhyw anfantais na mantais.

Manyleb ddrafft

Ffiniau gradd neu farciau pasio
Ni ddylid ei gwneud hi'n ddyletswydd ar gyrff dyfarnu i wneud addasiad rhesymol i ffiniau gradd a/neu farciau pasio ar gyfer ymgeiswyr anabl.
Enghraifft Yr ystod marciau ar gyfer gradd C mewn Mathemateg TGAU yw 50-59%. Bydd ymgeisydd anabl ac ymgeisydd nad yw'n anabl sy'n cael 59%, ill dau, yn cael gradd C.

Darllenwyr

Y sefyllfa gyfredol

Defnyddir darllenwyr pan nad yw ymgeiswyr â nam ar eu golwg yn gallu cyrchu papurau Braille neu bapurau sydd wedi'u haddasu/chwyddo. Gall darllenwyr fod yn bobl neu'n ddarllenwyr cyfrifiadur/sgrin, y cyfan yn darllen deunyddiau asesu ysgrifenedig.

Gellir defnyddio darllenwyr dynol a chyfrifiadur/sgrin fel addasiad rhesymol os nad yw gallu'r ymgeisydd i ddarllen yn cael ei asesu.

Fodd bynnag, pan fydd y gallu i ddarllen yn cael ei asesu – er enghraifft yng nghydrannau darllen TGAU Saesneg – ni chaniateir darllenwyr. Golyga hyn, pan nad yw ymgeiswyr â nam ar eu golwg yn gallu cyrchu Braille, print mwy neu brint mwy wedi'i addasu, y defnyddir esemptiadau ar gyfer cydrannau darllen cymwysterau megis TGAU Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd tramor modern.

Hoffem wneud y cymwysterau hyn yn fwy cynhwysol, er mwyn lleihau'r angen am esemptiadau.

Cynigion

Mewn amgylchedd gwaith ac ystafell ddosbarth bob dydd, gall dysgwyr â nam ar eu golwg ddefnyddio technolegau cymorth, megis sgrin, i ddilyn testun ysgrifenedig. Yr ydym am i asesiadau fod yn gyson â'r 'byd go iawn', ar yr amod nad yw hyn yn tanseilio amcanion yr asesiad.

Ar hyn o bryd, mae darllenwyr dynol a thechnolegau cymorth yn cael eu trin yr un fath. Ond y gwir yw bod yna wahaniaethau pwysig rhyngddynt.

1. Nid yw technolegau cymorth a darllenwyr dynol yn dehongli testun yr un fath. Mae darllenwyr dynol yn gallu ychwanegu haen o ddehongli llafar (goslef ac ystyr), a allai ddylanwadu ar ymateb ymgeisydd a, thrwy hynny, wneud y cymhwyster yn llai dibynadwy.
2. Mae technolegau cymorth yn caniatáu ar gyfer annibyniaeth, yn wahanol i ddarllenydd dynol.

Mae'r fanyleb a gynigiwn yn caniatáu ar gyfer y gwahaniaethau hyn. Yr ydym am ganiatáu defnyddio technolegau cymorth megis darllenwyr cyfrifiadur/sgrin mewn asesiadau darllen – yn wahanol i'r sefyllfa bresennol – ond parhau â'r arfer cyfredol o beidio â chaniatáu darllenwyr dynol mewn asesiadau o'r fath.

Drwy beidio â chaniatáu darllenwyr dynol mewn asesiadau darllen, mae ein cynnig yn ceisio sicrhau bod y cymwysterau'n parhau i fod yn ddarlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ymgeiswyr. Bydd caniatáu defnyddio technolegau cymorth yn lleihau lefel yr anfantais a wyneba ymgeiswyr anabl. Er enghraifft, bydd ymgeiswyr â nam ar eu golwg nad ydynt yn gallu cyrchu papurau wedi'u haddasu neu Braille yn gallu defnyddio

darllenydd cyfrifiadur/sgrin i ddangos eu sgiliau, yn hytrach na gorfod gwneud cais am gael eu heithrio o'r gydran ddarllen.

Gydag asesiadau darllen iaith dramor fodern, byddai'n rhaid i unrhyw ddarllenydd cyfrifiadur/sgrin neu binnau darllen ddefnyddio'r iaith a oedd yn cael ei hasesu.

Manyleb ddrafft

Darllenwyr

Ni ddylid defnyddio darllenwyr dynol fel addasiad rhesymol pan fydd gallu'r ymgeisydd i ddarllen yn cael ei asesu.

Enghraifft

Mewn arholiad darllen Cymraeg neu Saesneg TGAU a gynlluniwyd i brofi gallu'r ymgeisydd i ddarllen, ni ddylid defnyddio darllenydd dynol. Yn yr achos yma, dylid ystyried addasiadau rhesymol eraill, megis defnyddio darllenydd cyfrifiadur/sgrin.
--

Ysgrifenyddion a thechnolegau adnabod llais

Y sefyllfa gyfredol

Mae ysgrifenyddion a thechnolegau cymorth, megis systemau adnabod llais, yn cael eu defnyddio pan nad yw ymgeiswyr yn gallu ysgrifennu na theipio drwy ddefnyddio prosesydd geiriau. Mae ysgrifenyddion yn bobl sy'n ysgrifennu â llaw neu â phrosesydd geiriau atebion y mae ymgeisydd yn eu harddweud. Mae systemau adnabod llais yn cynhyrchu copi caled pan fydd yr ymgeisydd yn arddweud i mewn i gyfrifiadur.

Gyda'r rhan fwyaf o gymwysterau, mae defnyddio ysgrifenyddion a systemau adnabod llais yn addasiad rhesymol priodol. Fodd bynnag, pan fydd cymwysterau yn benodol asesu'r gallu i ysgrifennu, megis cymwysterau Cymraeg, Saesneg ac iaith dramor fodern TGAU, mae defnyddio ysgrifenyddion neu systemau adnabod llais yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar amcanion yr asesu.

Gallai defnyddio'r addasiadau rhesymol hyn danseilio amcanion asesu sillafu ac atalnodi cydrannau Saesneg, Cymraeg ac iaith dramor fodern ysgrifenedig, yn ogystal â chywirdeb amcanion asesu iaith yng nghydrannau ysgrifenedig iaith dramor fodern.

Mae'r trefniadau cyfredol fel a ganlyn:

Caniateir ysgrifenyddion a systemau adnabod llais dim ond pan nad yw ymgeisydd yn gallu defnyddio addasiad rhesymol arall a fyddai'n caniatáu iddynt ddangos eu sgiliau ysgrifenedig yn fwy llawn, megis teipio neu fewnbwn Braille.

Caniateir ysgrifenyddion mewn asesiadau ysgrifennu Saesneg a Chymraeg, ond nid yw marciau a ddyfernir ar gyfer sillafu ac atalnodi ar gael i ymgeiswyr pan fydd testun wedi'i gofnodi gan yr ysgrifennydd.

Caniateir ysgrifenyddion mewn cymwysterau pan fydd gallu ymgeisydd i ysgrifennu mewn iaith dramor fodern yn cael ei asesu, ond dim ond pan fydd yr ymgeisydd yn gallu sillafu pob gair, llythyren wrth llythyren. Mae hyn yn sicrhau mai sgiliau cywirdeb iaith yr ymgeisydd, nid yr ysgrifennydd, sy'n cael eu hasesu.

Ar hyn o bryd, ni chaniateir technoleg adnabod llais mewn asesiadau ysgrifennu Saesneg TGAU na Chymraeg TGAU oherwydd yr anhawster o sillafu geiriau drwy gyfrwng technoleg sydd, yn awtomatig, yn cynhyrchu geiriau.

Cynigion

Mae defnyddio ysgrifenyddion (neu'r dechnoleg sy'n cyfateb i hynny), heb gyfyngu ar y defnydd hwnnw, yn gallu dylanwadu ar allu ymgeisydd i ddangos eu sgiliau yng nghyswllt cywirdeb iaith, sillafu ac atalnodi. Os nad yw ymgeisydd wedi dangos bod ganddo sgil benodol, gallai dyfarnu marciau am y sgil honno danseilio ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster hwnnw.

O'r herwydd, yr ydym yn cynnig manyleb sy'n dweud na ddylid defnyddio ysgrifenyddion a meddalwedd a weithredir gan y llais mewn ffordd sy'n tanseilio'r amcanion asesu. Ni fyddai hyn yn cyfyngu ar y ffordd y mae ysgrifenyddion neu dechnoleg adnabod llais yn cael eu defnyddio mewn cymwysterau nad ydynt yn asesu gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu.

Manyleb ddrafft

Ysgrifenyddion ac adnabod llais
--

Ni ddylid defnyddio ysgrifenyddion a systemau adnabod llais fel addasiad rhesymol pan fydd gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu yn cael ei asesu.
--

Enghraifft 1

Mewn asesiad Daearyddiaeth, gellir defnyddio system adnabod llais neu ysgrifennydd fel addasiad rhesymol, gan nad yw gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu yn rhan o'r amcanion asesu.

Enghraifft 2

Mewn asesiad ysgrifennu Ffrangeg TGAU, ni ddylid defnyddio system adnabod llais gan y byddai'n cynhyrchu geiriau ac ni fyddai'n caniatáu i'r ymgeisydd ddangos eu gallu hwy eu hunain i ysgrifennu'n gywir yn Ffrangeg. Fel addasiad rhesymol gwahanol, gallai ymgeisydd arddweud atebion i beiriant recordio yn ystod yr asesiad. Gallant wedyn chwarae'r recordiad yn ei ôl, gan sillafu geiriau unigol i'r ysgrifennydd.

Iaith Arwyddion Prydain

Y sefyllfa gyfredol

Nid yw defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (IAP) ar gael fel addasiad rhesymol yng nghydrannau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o gymwysterau Saesneg, Cymraeg ac iaith dramor fodern.

Y prif resymau dros hyn yw:

- (a) Mae IAP yn cael ei chydabod yn iaith drwy ei theilyngdod hi ei hun. Mae llawer o grwpiau'n teimlo nad yw hi'n briodol cynnwys IAP mewn arholiad a elwir yn 'Saesneg', 'Cymraeg' neu 'Ffrangeg'.
- (b) Mae meini prawf cymhwyster cyfredol Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd tramor modern TGAU yn cyfeirio'n benodol at y gallu i siarad a gwrando, ac nid ydynt yn cyfeirio at gyfathrebu anysgrifenedig yn yr ystyr ehangach.

Os nad yw ymgeiswyr yn gallu defnyddio dulliau gwahanol o gyfathrebu megis darllen gwefusau, llais byw neu Saesneg â chymorth arwyddion, gellir gofyn am esemptiadau ar gyfer cydrannau siarad a gwrando.

Mae IAP ar gael fel addasiad rhesymol ar gyfer cydran siarad, gwrando a chyfathrebu Saesneg Sgiliau Gweithredol gan fod meini prawf y Cymhwyster Sgiliau Gweithredol yn diffinio siarad, gwrando a chyfathrebu mewn ffordd fwy cynhwysol.

Cynigion

Yn y tymor hwy, fe hoffem ddatblygu dull gweithredu mwy cyson gyda defnyddio IAP ar draws pob cymhwyster Saesneg, Cymraeg ac iaith dramor fodern. Fodd bynnag, mae yna resymau clir dros fabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag amcanion asesu cyfredol. Gan fod y rhain yn ddigyfnewid, rhaid i'r fanyleb a gynigiwn ganiatáu ar gyfer y gwahaniaethau hyn.

Gall ymgeiswyr nad ydynt yn gallu cael mynediad at gydrannau siarad a gwrando cymwysterau mewn Saesneg / Cymraeg / ieithoedd tramor modern barhau i ofyn am addasiadau rhesymol eraill, gan gynnwys eithrio o'r cydrannau hyn.

Gellir addasu'r fanyleb a gynigiwn y tro nesaf y bydd y meini prawf cymhwyster perthnasol yn cael eu hadolygu.

Manyleb ddrafft

Iaith Arwyddion Prydain

Ni ddylid defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel addasiad rhesymol pan fydd gofyn i ymgeiswyr arddangos eu gallu i siarad neu wrando.

Enghraifft

Mewn asesiad gwrandio Almaeneg TGAU, ni ddylid caniatáu IAP. Byddai caniatáu ei defnyddio yn golygu nad oedd yr ymgeisydd yn dangos eu gallu i ddeall Almaeneg llafar, sef un o amcanion yr asesiad. Gellir caniatáu addasiadau rhesymol eraill, megis dehonglydd llefaru awgrymol, neu pan nad yw'r rhain yn briodol, gellir gofyn am esemptiad.

Cynorthwywyr ymarferol

Y sefyllfa gyfredol

Ni chaniateir i gynorthwywyr ymarferol ddangos sgiliau corfforol ar ran ymgeisydd lle mae'r sgiliau corfforol hynny yn rhan o amcanion asesu cymhwyster.

Cynigion

Mae manyleb ein cynnig yn adlewyrchu trefniadau cyfredol, gan y gallai newid sylweddol danseilio gallu cymwysterau i roi darlun dibynadwy o sgiliau'r ymgeisydd, a gallent hefyd danseilio ffydd y cyhoedd. Ar ben hynny, ni fyddai caniatáu i gynorthwywyr ymarferol arddangos sgiliau corfforol ar ran ymgeisydd anabl, o reidrwydd, yn lleihau anfantais, gan na fyddai'r ymgeisydd yn cael ei asesu ar eu galluoedd hwy eu hunain.

Manyleb ddrafft

Cynorthwywyr ymarferol

Ni ddylid defnyddio cynorthwywyr ymarferol fel addasiad rhesymol pan fydd gofyn i ymgeiswyr gyflawni tasgau corfforol neu arddangos sgiliau corfforol sy'n rhan o amcanion asesu'r cymhwyster.

Enghraifft 1

Mae ymgeisydd yn cael ei asesu ar ei gallu i ganu offeryn cerdd mewn cymhwyster Cerddoriaeth. Ni chaniateir i gynorthwydd ymarferol arddangos y sgiliau hynny ar ran yr ymgeisydd.
--

Enghraifft 2

Mae angen cynorthwydd ymarferol ar ymgeisydd sydd â nam ar ei symudedd i droi tudalennau mewn arholiad ysgrifenedig, neu symud offer mewn asesiad ymarferol gwyddonol. Gall cynorthwydd ymarferol berfformio'r tasgau hyn gan nad yw'r sgiliau corfforol hyn yn rhan o unrhyw amcanion asesu.

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)

Mae CBC yn cynnwys gofyniad Craidd, y mae pob dysgwr yn ei gwblhau, ac Opsiynau, sy'n cael eu dewis o'r ystod o gymwysterau perthnasol a gymeradwyir ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru.

Y sefyllfa gyfredol

Opsiynau

Ar gyfer yr Opsiynau, mae addasiadau rhesymol, gan gynnwys esemptiadau, yn gymwys fel a bennir ar gyfer y cymwysterau unigol dan sylw. Ni ellir caniatáu unrhyw esemptiad o ofyniad Opsiwn CBC. Mae hyblygrwydd sylweddol eisoes ar gael, gan fod dysgwyr yn gallu dewis eu Hopsiynau o blith yr ystod lawn o gymwysterau perthnasol y cymeradwyir eu defnyddio yng Nghymru.

Esempiadau ar gyfer gofynion Craidd CBC

Perthyn y cydrannau canlynol i ofynion Craidd CBC:

Cymwysterau Sgiliau Allweddol (SA) / Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC)

Cymru Ewrop a'r Byd (CEB), gan gynnwys modiwl iaith

Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), gan gynnwys elfen cyfranogiad cymunedol

Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG), gan gynnwys gweithio gyda chyflogwr a chyfrannu at weithgarwch menter tîm

Archwiliad Unigol.

SA/SHC

Mae SA a SHC yn gymwysterau uned-sengl, seiliedig ar gymhwysedd, ac felly nid oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol i'r cymwysterau unigol. Fodd bynnag, mae hyblygrwydd ymhlyg ym model CBC, fel y gwelir isod.

Lefel 1 (Sylfaenol)

Y gofyniad **lleiaf** yw cyflawni pedair SA/SHC a dangos tystiolaeth o fod wedi astudio pob un o'r chwech. Gall dysgwyr, felly, ddewis cael eu hasesu yn y SA/SHA hynny sydd fwyaf hygyrch iddynt.

Lefel 2 (Canolradd)

Y gofyniad **lleiaf** yw cyflawni pedair SA/SHC; dwy ar Lefel 2 a dwy ar Lefel 1. Rhaid i *Gyfathrebu*, *Cymhwyso Rhif* a *TGCh* fod yn gynnwysedig yn y pedair SA/SHC hyn. Er bod y gofyniad lleiaf i gyflawni pedair SA/SHC yn parhau (dwy ar Lefel 2 a dwy ar Lefel 1), gellir eithrio dysgwyr anabl o'r gofyniad i gyflawni pob un o'r tair *Cyfathrebu*, *Cymhwyso Rhif* a *TGCh*: mae unrhyw ddwy o'r rhain yn dderbyniol.

Rhaid cael tystiolaeth bod y dysgwr wedi astudio'r ddau gymhwyster SA/SHA sy'n weddill, fel rhan o'u rhaglen ddysgu.

Lefel 3 (Uwch)

Rhaid cyflawni pob un o'r chwe SA/SHC. Y gofyniad **lleiaf** yw bod rhaid cyflawni o leiaf dair o'r rhain ar Lefel 3 (a rhaid i o leiaf un o'r tair yna fod yn *Gyfathrebu*, *Cymhwyso Rhif* neu *TGCh*). Rhaid i'r tair SA/SHC sy'n weddill fod ar lefel 2.

Gellir eithrio dysgwyr anabl o elfennau o'r gofyniad lleiaf hwn, ar yr amod eu bod yn cyflawni o leiaf tair SA/SHC ar Lefel 3 (gydag un ohonynt yn gorfod bod o *Gyfathrebu*, *Cymhwyso Rhif* neu *TGCh*), ynghyd â dwy SA/SHC lefel 2 neu uwch.

Rhaid cael tystiolaeth bod y dysgwr wedi astudio'r SA/SHA sy'n weddill, fel rhan o'u rhaglen ddysgu.

CEB, ABCh ac AGG

Rhaid cwblhau cydrannau CEB, ABCh ac AGG Craidd CBC. Nid oes gan y cydrannau hyn feini prawf asesu penodol, ac mae manylebau CBC yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd sylweddol yn y ffyrdd y gellir cwblhau cydrannau CEB, ABCh ac AGG. Er na chaniateir unrhyw esemptiadau o'r cydrannau Craidd CBC hyn, caniateir addasiadau rhesymol eraill, fel y bo'n briodol.

Archwiliad Unigol

Llunnir meini prawf asesu elfen hon y gofyniad Craidd mewn ffordd sy'n cynnig cwmpas sylweddol ar gyfer hyblygrwydd. Gall dysgwyr gyflwyno'r Archwiliad Unigol naill ai ar bapur neu ar lafar. Er na chaniateir unrhyw esemptiadau o'r gydran Craidd CBC hon, caniateir addasiadau rhesymol eraill, fel y bo'n briodol.

Cynigion

Mae'r fanyleb a gynigiwn yn adlewyrchu trefniadau cyfredol gan iddynt brofi'n effeithiol, a gallai newid y rhain danseilio ffydd y cyhoedd yn CBC.

Mae'r fanyleb wedi'i chyfyngu i'r cyfyngiad ar esemptiadau a nodwyd uchod.

Manyleb ddrafft

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

O fewn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ni ddylai cyrff dyfarnu fod â dyletswydd i eithrio ymgeiswyr o:

(a) y gofyniad opsiwn;

(b) elfennau Sgiliau Allweddol / Sgiliau Hanfodol Cymru; Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Bersonol a Chymdeithasol; Addysg Gysylltiedig â Gwaith ac Archwiliad Unigol y craidd.

Enghraifft

Ni ddylid eithrio ymgeisydd anabl ar gyfer CBC Lefel 2 (canolradd) o'r gofyniad i gyflawni pedwar cymhwyster SA/SHC. Fodd bynnag, gellir hepgor y gofyniad i gyflawni pob un o'r tair Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TGCh: mae unrhyw ddwy o'r rhain yn dderbyniol.